



# CHERISH

*Newid Hinsawdd a Threftadaeth yr Arfordir  
Climate Change and Coastal Heritage  
Athrú Aeráide agus Oidhreacht Chultúrtha*

Newyddion

---

# CHERISH

---

News



# CYNNWYS / CONTENTS

---

CROESO / WELCOME	3
YNGHYLCH CHERISH / ABOUT CHERISH	4
UCHAFBWYNTIAU IONAWR-HYDREF 2017 / HIGHLIGHTS JANUARY-OCTOBER 2017	6
LANSIO CHERISH / LAUNCHING CHERISH	7
CASGLU DATA O'R AWYR AC AR Y MÔR A'R TIR / DATA GATHERING FROM THE AIR, ON SEA AND LAND	8
WYNEBU'R STORMYDD / FACING THE STORMS	12
YMGYSYLLTU / ENGAGEMENT	13
HYFFORDDIANT / TRAINING	16
DYDDIADAU AR GYFER EICH DYDDIADUR / DATES FOR YOUR DIARY	17
AMSER CYSTADLU! / COMPETITION TIME!	18
PWY YW TÎM CHERISH? / MEET THE CHERISH TEAM	19

# CROESO

i newyddion cyntaf CHERISH!

---

Ein bwriad yw cynhyrchu newyddlen reolaidd ar gynnydd ein prosiect cyffrous, wedi'i ariannu gan yr Undeb Ewropeaidd, sy'n canolbwyntio ar newid hinsawdd a threftadaeth arfordirol. I gael gwybod beth sy'n digwydd o ddydd i ddydd, ewch i'n gwefan a'n tudalennau Facebook a Twitter, y rhoddir eu manylion isod.

Dechreuodd CHERISH ym mis Ionawr 2017 ac mi rydym wedi bod yn brysur yn sefydlu'r prosiect. Erbyn hyn mae tîm CHERISH wedi'i ffurfio ac yn gweithio'n galed ar dir a môr. Rhoddir sylw i rai o'r uchafbwyntiau yn y newyddlen hon.

# WELCOME

to the first CHERISH news!

---

Our plan is to provide a regular newsletter on the progress of our exciting European-funded project looking at climate change and coastal heritage. For day-to-day news and features don't forget to look at our website, Facebook and Twitter pages, details of which can be found below.

CHERISH began in January 2017 and we have had a very busy start-up phase. Now the CHERISH team is in place and already hard at work on land and sea. You'll see some of the highlights below.



[www.cherishproject.eu](http://www.cherishproject.eu)



[CHERISH Project](#)



[@CHERISHproj](#)

# YNGHYLCH CHERISH / ABOUT CHERISH

---


Prosiect Iwerddon-Cymru pum mlynedd o hyd yw CHERISH. Mae'n dwyn ynghyd bedwar partner o'r ddwy genedl a bydd yn para hyd fis Rhagfyr 2021. Bydd yn derbyn €4.1 miliwn o'r Undeb Ewropeaidd drwy Raglen Gydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020.

Prosiect gwirioneddol drawsddisgyblaethol yw CHERISH sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o effeithiau newid hinsawdd, stormydd a thywydd garw ar dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog ein môr a'n harfordir yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol agos. Byddwn yn cysylltu tir a môr ac yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau a dulliau i astudio rhai o leoliadau arfordirol mwyaf eiconig Cymru ac Iwerddon, er enghraifft, sganio laser ar y ddaear ac o'r awyr, arolygon geoffisegol, mapio gwely'r môr, samplu palaeoamgylcheddol, cloddiadau a monitro llongdrylliadau.


CHERISH is a five-year Ireland-Wales project, bringing together four partners across the two nations, and will run until December 2021. It will receive €4.1 million of EU funds through the Ireland Wales Co-operation Programme 2014-2020.

CHERISH is a truly cross-disciplinary project aimed at raising awareness and understanding of the past, present and near future impacts of climate change, storminess and extreme weather events on the rich cultural heritage of our sea and coast. We will be linking land and sea, and employing a variety of techniques and methods to study some of the most iconic coastal locations in Ireland and Wales. These range from terrestrial and aerial laser scanning, geophysical survey and seabed mapping through to palaeoenvironmental sampling, excavation and shipwreck monitoring.





*Ymaggwedd integredig at arolygu ar y tir ac o dan y môr. Y graffigyn hwn sy'n disgrifio orau y dull amlddisgyblaethol o gofnodi arfordirol ac arforol y bydd CHERISH yn ei ddefnyddio yng Nghymru ac Iwerddon. / An integrated approach to survey on land and under the sea. This graphic best describes the multidisciplinary approach to coastal and maritime recording that CHERISH will employ in Wales and Ireland.*



*Y prif ardaloedd astudio lle bydd CHERISH yn gweithio yn ystod y pum mlynedd nesaf. / The main study areas where CHERISH will be working over the next five years.*

An aerial photograph of a coastline. The water is a deep, vibrant green, transitioning to a darker blue further out. The shoreline is rocky and pebbly, with some green vegetation visible in the bottom right corner. The text is overlaid on the upper left portion of the image.

# UCHAFBWYNTIAU IONAWR-HYDREF 2017

---

## HIGHLIGHTS JANUARY- OCTOBER 2017

# LANSIO CHERISH / LAUNCHING CHERISH

Lansiwyd CHERISH yn swyddogol ar 23 Mawrth 2017 ym Mhrifysgol Aberystwyth a Goleuadau Iwerddon yn Dún Laoghaire. Daeth mwy na 100 o bobl i'r lansiad a chafwyd anerchiadau agoriadol gan Seán Kyne, Gweinidog Gwladol yn Iwerddon, a'r Athro John Grattan, Is-Ganghellor Dros Dro Prifysgol Aberystwyth bryd hynny.

Dangoswyd llawer o ddiddordeb yn y prosiect gan y wasg a'r cyfryngau, gan gynnwys darn a ddarlledwyd ar newyddion cenedlaethol BBC Cymru-Wales ym mis Mai.

CHERISH was officially launched on 23 March 2017 at Aberystwyth University and the Irish Lights in Dún Laoghaire. Over 100 people attended the events with opening addresses from Irish Minister of State Sean Kyne and the then acting Vice Chancellor of Aberystwyth University, Professor John Grattan.

The project has had lots of press and media interest, including a piece on national BBC Cymru-Wales news in May.



*Lansiad CHERISH ym Mhrifysgol Aberystwyth. / The CHERISH launch at Aberystwyth University.*



*Tîm CHERISH o Brifysgol Aberystwyth, Hywel Griffiths a Sarah Davies (de), yn cael eu holi gan Kate Morgan ar ran newyddion BBC Cymru-Wales. / The CHERISH team from Aberystwyth University, Hywel Griffiths and Sarah Davies (right), being interviewed by Kate Morgan for BBC Cymru-Wales news.*

# CASGLU DATA O'R AWYR AC AR Y MÔR A'R TIR / DATA GATHERING FROM THE AIR, ON SEA AND LAND

Mae tîm arolygu CHERISH wedi bod allan yn dewis safleoedd ac ardaloedd astudio i'w harolygu ac ymchwilio iddynt yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Rydym ni wedi dechrau casglu data cychwynnol hanfodol mewn nifer o leoliadau. Yn ogystal â chofnodi cyflwr presennol henebion hysbys rydym wedi darganfod rhai newydd. Caiff y rhain eu monitro'n rheolaidd o hyn ymlaen, a byddant yn fan cychwyn absoliwt ar gyfer monitro newid hinsawdd yn y dyfodol. Casglwyd y data mewn sawl ffordd:

The CHERISH survey team has been out and about selecting sites and study areas for survey and investigation over the next five years.

We've started to gather essential baseline data at a number of locations, documenting the current state of known monuments but also discovering new ones. Going forward, these will be subject to regular monitoring and provide an absolute fix for future climate change monitoring. Data has been gathered in a variety of ways:





*Rob Shaw a Gary Devlin o'r Rhaglen Ddarganfod ym Maes Awyr Cork yn dilyn hediad man cychwyn CHERISH, Medi 2017. / Rob Shaw and Gary Devlin of the Discovery Programme at Cork Airport following a CHERISH baseline flight, September 2017.*



Comisiynwyd Bluesky International Limited i gasglu data LiDAR 'dail i ffwrdd' 25cm ar gyfer chwech o ynysoedd Cymru ar lanw isel, sef y data geomatig 3D tra manwl cyntaf ar gyfer yr ynysoedd hyn. Rydym ni wedi dechrau llunio mapiau newydd o'r archaeoleg. Yn ogystal â mapio safleoedd hysbys rydym wedi gwneud rhai darganfyddiadau newydd cyffrous a gaiff eu gwireddu ar y ddaear yn ystod y blynyddoedd i ddod.

We commissioned Bluesky International Limited to capture 25cm 'leaves off' LiDAR for six Welsh Islands at low tide, the first highly-accurate 3D geomatic data for these Welsh islands. We've begun to compile new maps of the archaeology, which includes mapping known sites and also making some exciting new discoveries that will be ground-truthed over the coming years.



*Ynys Dewi, Sir Benfro. LiDAR 25cm wedi'i brosesu gan ddefnyddio'r Relief Visualisation Toolbox: 'hillshade' 16-pwynt. / Ramsey Island, Pembrokeshire. 25cm LiDAR processed using the Relief Visualisation Toolbox: 16-point hillshade.*

Rydym ni wedi cwblhau arolwg drôn o Gaer Dunbeg ar Benrhyn Dingle, Swydd Kerry. Ar sail y data fe gynhyrchwyd model o'r gaer gan ddefnyddio proses ffotogrametrig o'r enw 'strwythur o fudiant'. Bydd y dull arloesol hwn, sy'n adeiladu model 3D hynod fanwl gywir o'r safle, yn cael ei ddefnyddio ar nifer o henebion arfordirol.

We've completed a drone survey of Dunbeg Fort in the Dingle Peninsula, County Kerry, from which a model of the fort was produced using a photogrammetric process called 'structure for motion'. This innovative approach, which builds a highly accurate 3D model of the site, will be used on a number of coastal monuments going forward.



*Caer Dunbeg mewn 3D. Roedd y safle eisoes wedi'i ddifrodi gan erydiad arfordirol gan i ran ohono gwmpo i'r môr ar ddechrau 2014. Caiff ei fonitro'n rheolaidd bellach fel rhan o prosiect CHERISH. / Dunbeg Fort in 3D. The site had already been damaged by coastal erosion, with a section of it collapsing into the sea in early 2014, and will now be subject to regular monitoring as part of CHERISH.*

Rydym ni wedi ymgymryd â hediadau monitro arfordirol man cychwyn yng Nghymru ac Iwerddon, gan dynnu awyrluniau arosgo er mwyn cofnodi cyflwr presennol ein safleoedd treftadaeth arfordirol yn yr ardaloedd a gaiff eu hastudio. Caiff yr un safleoedd a henebion eu harolygu eto o'r awyr yn ystod oes y prosiect er mwyn dogfennu unrhyw newidiadau.

We've undertaken baseline coastal monitoring flights in Wales and Ireland, capturing stunning oblique aerial images to document the current state of our coastal heritage sites in the CHERISH study areas. The same sites and monuments will be revisited from the air at various points during the lifespan of the project to document any change that might have occurred.



*Magl Bysgod Poppit Sands, Sir Benfro, un o'r maglau pysgod canoloesol mwyaf ar arfordir Cymru, a gofnodwyd yn ystod hediad monitro man cychwyn CHERISH ym mis Mehefin 2017. / Poppit Sands Fish Trap, Pembrokeshire, one of the largest medieval fish traps on the coast of Wales recorded during a CHERISH baseline monitoring flight in June 2017.*



*Mynachlog a llyn Lady's Island, Swydd Wexford, safle lagŵn arfordirol, a gofnodwyd yn ystod hediad monitro man cychwyn CHERISH ym mis Medi 2017. / Lady's Island monastery and lake, County Wexford, a low-lying coastal lagoon site recorded during a CHERISH baseline monitoring flight in September 2017.*

Ar y môr mae mapio ar y gweill yn nyfroedd Iwerddon a sefydlwyd is-grŵp arforol CHERISH i bennu safleoedd allweddol i'w harolygu a llongddrylliadau dangosydd i'w monitro. Cyfarfu'r grŵp yn Nulyn yn ddiweddar i gynllunio arolygon yn nyfroedd Cymru yn 2018. Aeth yr aelodau ar daith fer ar yr RV Lir, sydd newydd ymuno â fflyd Arolwg Daearegol Iwerddon o longau ymchwil a ddefnyddir i ymgymryd â mapio a monitro morol.

On the sea mapping is underway in Irish waters and a CHERISH maritime subgroup has been initiated to identify key survey sites and indicator wrecks for monitoring. The group recently met in Dublin to plan 2018 surveys in Welsh waters. This included a short trip from Dun Laoghaire on the RV Lir, the newest addition to the Geological Survey of Ireland's fleet of research vessels used for marine mapping and monitoring.



*Llongau ymchwil Arolwg Daearegol Iwerddon. / The Geological Survey of Ireland's inshore fleet.*

Ar y tir buom yn rhagchwilio safleoedd posibl ar gyfer ymchwil palaeoamgylcheddol. Byddwn yn dechrau ein prif gynllun creiddio i gael samplau o waddod yn 2018, ond gobeithiwn gael rhai samplau cychwynnol cyn diwedd y flwyddyn o Gors Fochno, Ceredigion a safleoedd yng Ngogledd Sir Benfro. Cymerwyd samplau hefyd, at bwrpas dyddio OSL (ymoleuedd wedi'i ysgogi'n optegol), o ffos gloddio ar draws terfyn cae ar Ynys Sgomer oddi ar arfordir Sir Benfro.

On land we've been making reconnaissance visits to potential sites for palaeoenvironmental research. Our sediment coring campaign will begin in earnest in 2018, but we hope to obtain some initial samples before the end of the year from Cors Fochno, Ceredigion and sites in North Pembrokeshire. Samples have also been taken from an excavation trench across a field boundary on Skomer Island off the coast of Pembrokeshire in Wales for optically stimulated luminescence (OSL) dating.



*Yr Athro Geoff Duller o Brifysgol Aberystwyth yn cymryd samplau at bwrpas dyddio OSL ar Ynys Sgomer ym mis Ebrill 2017. / Professor Geoff Duller of Aberystwyth University taking samples for luminescence (OSL) dating on Skomer in April 2017.*

# WYNEBU'R STORMYDD / FACING THE STORMS

Yn ystod mis Hydref 2017 cafodd arfordiroedd de-orllewinol Iwerddon a Chymru eu taro gan stormydd Ophelia a Brian o fewn wythnos i'w gilydd. Aeth timau arolygu CHERISH allan ar y tir wedi Storm Ophelia i asesu effeithiau'r storm ar yr ardaloedd rydym ni'n eu hastudio yn Swydd Wexford, Iwerddon, a Sir Benfro, Cymru. Fe brofodd ein monitro man cychwyn o'r awyr yn gynharach yn 2017 yn fuddiol. Roedd awyrluniau a dynnwyd gennym yn ystod arolygon man cychwyn diwedd Medi yn dangos y bar tywod a'r bwllch ym mhen deheuol Llyn Lady's Island cyn y stormydd. Dangosodd awyrluniau drôn a dynnwyd gan y Rhaglen Ddarganfod ar 18 Hydref newidiadau i'r bar tywod ac mewn manau eraill ar hyd yr arfordir bregus hwn. Bydd monitro tymor-hir o'r fath yn parhau yn ystod y prosiect pum mlynedd.

During October 2017 the south-west coastlines of Ireland and Wales were battered by storms Ophelia and Brian within a week of one another. CHERISH survey teams were out on the ground in the days following Storm Ophelia to assess the aftermath across study areas in County Wexford, Ireland, and Pembrokeshire, Wales. Here the benefit of our baseline monitoring from the air earlier in 2017 became apparent. Aerial photographs taken during Irish baseline surveys in late September showed the sand bar and breach at the southern end of Lady's Island Lake before the storms. Subsequent drone aerial photos taken by the Discovery Programme on 18 October recorded changes to the sand bar, and at other points along this vulnerable coast. Such long-term monitoring will continue during the five-year project.



*Llyn Lady's Island, Swydd Wexford. Tynnwyd llun y bar tywod arfordirol yn ystod arolwg man cychwyn o'r awyr ar 28 Medi 2017 (chwith) a chan ddrôn wedi Storm Ophelia ar 18 Hydref 2017. Gellir gweld yn glir bod y bar tywod wedi newid. / Lady's Island Lake, County Wexford. Coastal sand bar photographed during baseline aerial survey on 28 September 2017 (left) and with a drone following Storm Ophelia on 18 October 2017. Changes in the sand bar are immediately apparent.*

# YMGYSYLLTU / ENGAGEMENT

Mae ymgysylltu a chydweithio â rhanddeiliaid yn allweddol i CHERISH ac rydym wedi cyfarfod â dau ar bymtheg o sefydliadau yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Yn eu plith mae sefydliadau treftadaeth cenedlaethol a llywodraethol fel Cadw, Historic England, Historic Environment Scotland, Gwasanaeth Cofadeiliau Cenedlaethol Iwerddon, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru. Rydym hefyd wedi cyfarfod a sefydlu cysylltiadau â phrosiectau archaeolegol arfordirol megis SCAPE yn yr Alban a CITiZAN yn Lloegr. Hoffem ddiolch i'r holl randdeiliaid hyn am eu cyfraniadau cadarnhaol i'r prosiect yn ystod y cyfnod datblygu a pharatoi.

Stakeholder engagement and collaboration is crucial to CHERISH and we've had a busy time meeting with seventeen stakeholder organisations across the United Kingdom and Ireland. These include national and government heritage organisations such as Cadw, Historic England, Historic Environment Scotland, the National Monument Service in Ireland, National Trust and Natural Resources Wales. We've also met and established links with existing coastal archaeological projects such as SCAPE in Scotland and CITiZAN in England. We would like to thank all stakeholders for their positive contribution to the project throughout its development and mobilisation phase.



*Staff o CHERISH Cymru ac Iwerddon ac Ymddiriedolaeth SCAPE (Archaeoleg Arfordirol yn yr Alban a Phroblem Erydiad) ar arfordir Fife yn yr Alban. / CHERISH staff from Ireland and Wales out and about with the SCAPE (Scottish Coastal Archaeology and the Problem of Erosion) Trust along the Fife coast in Scotland.*

*Tri Phrosiect Arfordirol Prydeinig yn cyfarfod ar Orkney. Cyfarfu staff o CHERISH, SCAPE a CITiZAN yn y gynhadledd 'Ein Hynsoedd, Ein Gorffennol' a drefnwyd gan Brifysgol yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd yn Kirkwall, Orkney, ym mis Medi. / Three British Coastal Projects meet in Orkney. Staff from CHERISH, SCAPE and CITiZAN met at the 'Our Islands, Our Past' conference organised by the University of Highlands and Islands in Kirkwall, Orkney, in September.*



Rydym ni wedi siarad am CHERISH â channoedd lawer o bobl, gan gynnwys mynychwyr nifer o gynadleddau rhyngwladol, er enghraifft, 'Ein Hynsoedd, Ein Gorffennol' ar Orkney a chynadleddau'r Gymdeithas Archaeolegol Ewropeaidd ym Maastricht, y Grŵp Ymchwil Archaeoleg o'r Awyr yn Pula, y Gymdeithas Ddaeryddol Frenhinol yn Llundain a Chymdeithas Geomorffoleg Prydain.

Buom yn dathlu Diwrnod Ewrop ar 9 Mai a threfnwyd digwyddiad Wythnos Treftadaeth Genedlaethol yn Iwerddon pryd y gwahoddwyd y cyhoedd i ddod ar fwrdd yr RV Keary, un o longau arolygu Arolwg Daearegol Iwerddon, yn Kilmore Quay ar 20 a 27 Awst. Hysbysebwyd y digwyddiad ar radio lleol a chenedlaethol, yn y papur newydd lleol ac ar gyfryngau cymdeithasol, ac o ganlyniad fe ddaeth rhyw bedwar cant o bobl ar fwrdd y llong dros y ddau ddiwrnod.

We've talked about CHERISH to many hundreds of people, including presenting at a number of international conferences such as the European Archaeological Association in Maastricht, the Aerial Archaeology Research Group in Pula, 'Our Islands, Our Past' in Orkney, the Royal Geographical Society in London and the British Society for Geomorphology annual conference.

We celebrated Europe Day on 9 May and also organised a National Heritage Week event in Ireland with the public invited on board the Geological Survey of Ireland's survey vessel the RV Keary in Kilmore Quay on 20 and 27 August. Announcing the event on local and national radio, in the local newspaper and through various social media channels ensured we had a good turnout on both days with some four hundred people coming on board.



Cyflwyno CHERISH yng nghynhadledd flynyddol y Grŵp Ymchwil Archaeoleg o'r Awyr yn Pula, Croatia. / Introducing CHERISH at the Aerial Archaeology Research Group (AARG) annual conference in Pula, Croatia.



Diwrnod Treftadaeth ar fwrdd yr RV Keary yn Kilmore Quay. Cyfarfu'r tîm CHERISH â'r cyhoedd a buont yn trafod effaith newid hinsawdd ar dreftadaeth ddiwylliannol, y broses o fapio gwely'r môr, a'n cynlluniau ar gyfer gwaith ymchwil yn ardal Wexford. Gwnaed llawer o gysylltiadau defnyddiol â grwpiau deifio, archaeolegwyr lleol ac awdurdodau lleol. / Heritage Day on board the RV Keary in Kilmore Quay. The CHERISH team met with members of the public and discussed the impact of climate change on cultural heritage, the process of seabed mapping and our plans for research in the Wexford area. Many useful connections with diving groups, local archaeologists and local authorities were made.



# HYFFORDDIANT / TRAINING

---



Bydd gofyn i ni ddefnyddio'r technolegau diweddaraf i gasglu data a bydd angen gweithio mewn amgylcheddau anghysbell weithiau. Felly rydym wedi ymgymryd â hyfforddiant i sicrhau ein bod ni'n gwneud hyn mewn ffordd ddiogel a chyfrifol. Mae hyn wedi cynnwys technegau goroesi personol ar y môr, defnyddio rhaffau i gyrraedd safleoedd ac ymglyfarwyddo ag abseilio, er y gallwch fod yn siŵr y byddwn ni'n cyflogi arbenigwyr i weithio i ni a chyda ni pan fydd angen!

Hefyd mae sawl aelod o'r tîm arolygu wedi ymgymryd â hyfforddiant UAV (Awyren Ddibeilot) i sicrhau ein bod ni'n defnyddio dronau'n gyfrifol wrth astudio a monitro'r arfordir a safleoedd treftadaeth o bell.

CHERISH will require us to gather data using the latest technologies as well as work in some remote environments. We've therefore been undertaking training to make sure that we do this safely and responsibly. This has included personal survival techniques at sea, and rope access and abseiling acclimatisation, although rest assured that specialists will always be employed to work for and with us whenever this is required!

A number of the survey team have also undertaken Unmanned Aerial Vehicle (UAV) training so that we can use drones responsibly in the remote sensing and monitoring of the coastline and heritage sites.





# DYDDIADAU AR GYFER EICH DYDDIADUR

---

Mae ein dyddiadur yn llenwi gyda digwyddiadau ar gyfer y misoedd nesaf lle byddwch chi'n gallu cyfarfod ag aelodau o dîm CHERISH a darganfod mwy am ein prosiect cyffrous. Byddwn ar gael yn:

- Cynhadledd Gorffennol Digidol: Technolegau Newydd ym meysydd Treftadaeth, Dehongli ac Estyn-Allan. Aberystwyth, 7-8 Chwefror 2018.
- Cymdeithas Hanes Saundersfoot a'r Cylch. Sir Benfro, 21 Chwefror 2018.
- Diwrnod Archaeoleg Ceredigion. Aberystwyth, 3 Mawrth 2018.
- Carto-Cymru. Aberystwyth, 18 Mai 2018.

Cadwch eich llygaid ar agor am ein gweithgareddau diweddaraf ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan.

## DATES FOR YOUR DIARY

---

Our diary is filling up with events over the coming months, where you'll be able to meet with members of the CHERISH team and find out more about our exciting project. You'll find us at:

- Digital Past Conference: New Technologies in Heritage, Interpretation and Outreach. Aberystwyth, 7-8 February 2018.
- Saundersfoot and District Historical Society. Pembrokeshire, 21 February 2018.
- Ceredigion Archaeology Day. Aberystwyth, 3 March 2018.
- Carto-Cymru. Aberystwyth, 18 May 2018.

Please keep an eye on our social media channels and website for the latest dates.



## AMSER CYSTADLU! / COMPETITION TIME!

---

Dewch i gyfarfod ag aelod diweddaraf ein tîm CHERISH a fydd yn ein helpu ni gyda'n gwaith yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae angen enw ar y Pâl, a hoffem gael eich awgrymiadau! Bydd yr enillydd yn derbyn tegan meddal pâl ynghyd â het a chwdyn pethau da CHERISH. Anfonwch eich awgrymiadau at

[cherish@cbhc.gov.uk](mailto:cherish@cbhc.gov.uk) erbyn 31 Ionawr 2018.

Meet the newest member of the CHERISH team who will be joining us on our work over the next few years. The Puffin needs a name, and we need your suggestions! The winner will receive a cuddly puffin along with a CHERISH hat and goody bag. Send your suggestions to

[cherish@rcahmw.gov.uk](mailto:cherish@rcahmw.gov.uk) by 31 January 2018

# PWY YW TÎM CHERISH? / MEET THE CHERISH TEAM

Tîm trawsddisgyblaethol o Iwerddon a Chymru yw tîm CHERISH. Mae'n dwyn ynghyd arbenigwyr o amryfal feysydd gan gynnwys newid hinsawdd, hydrograffeg, daeareg, archaeoleg, synhwyro o bell, geomorffoleg a dyddio gwyddonol.

## *Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru*

Partner arweiniol CHERISH a chorff ymchwilio ac archif cenedlaethol amgylchedd hanesyddol Cymru.

CHERISH comprises a cross-disciplinary team from Ireland and Wales bringing together specialists from a variety of fields including climate change, hydrography, geology, archaeology, remote sensing, geomorphology and scientific dating.

## *Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales*


The CHERISH lead partner and the investigation body and national archive for the historic environment of Wales.



**Tîm CHERISH y Comisiwn Brenhinol. Yn glocwedd o'r chwith uchaf: Dr Toby Driver (Uwch Ymchwilydd y Comisiwn Brenhinol, Arolygu o'r Awyr), Daniel Hunt (Ymchwilydd CHERISH), Clare Burgess (Rheolwr Prosiect CHERISH) a Louise Barker (Uwch Ymchwilydd y Comisiwn Brenhinol, Archaeoleg). / The Royal Commission CHERISH team. Clockwise from top left Dr Toby Driver (Royal Commission Senior Investigator, Aerial Survey), Daniel Hunt (CHERISH Investigator), Clare Burgess (CHERISH Project Manager) and Louise Barker (Royal Commission Senior Investigator, Archaeology).**

### ***Yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth***

Hon yw un o adrannau Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear hynaf a mwyaf y DU. Fe'i cydnabyddir yn rhyngwladol am ei harbenigedd ym meysydd ymchwil i newid amgylcheddol a geocronoleg.



***Tim arolygu CHERISH Prifysgol Aberystwyth, o'r chwith i'r dde: Helen Roberts, Geoff Duller, Cerys Jones, Hollie Wynne, Sarah Davies a Henry Lamb. Heb fod yn y llun: Patrick Robson, Hywel Griffiths. / The Aberystwyth University CHERISH survey team, from left to right: Helen Roberts, Geoff Duller, Cerys Jones, Hollie Wynne, Sarah Davies and Henry Lamb. Not pictured: Patrick Robson, Hywel Griffiths.***

### ***Arolwg Daearegol Iwerddon***


Yr Asiantaeth Gwyddor Daear Genedlaethol, sy'n gyfrifol am gael a darparu data, cyngor a gwybodaeth ddaearegol.

### ***Department of Geography and Earth Sciences (DGES), Aberystwyth University***

DGES is one of the oldest and largest departments of Geography and Earth Sciences in the UK, with internationally recognised expertise in environmental change research and geochronology.

### ***Geological Survey of Ireland***

The National Earth Science Agency, responsible for the acquisition and provision of geological data, advice and information.



***Tim CHERISH yr Arolwg Daearegol, o'r chwith i'r dde: Sean Cullen (Prif Ddaearegwr), James Barry (Geowyddonydd Morol) a Cathal Jordan (Ymgynghorydd GIS). / The Geological Survey CHERISH Team, from left to right: Sean Cullen (Principal Geologist), James Barry (Marine Geoscientist) and Cathal Jordan (GIS Consultant).***

### *Y Rhaglen Ddarganfod, Canolfan Archaeoleg ac Arloesedd Iwerddon*

Corff ymchwil archaeolegol cenedlaethol sy'n ymchwilio i dreftadaeth ddiwylliannol Iwerddon; arbenigwyr blaenllaw ym maes technoleg synhwyro o bell a geo-ofodol.

### *Discovery Programme, Centre for Archaeology and Innovation Ireland*

A national archaeological research body exploring Ireland's cultural heritage and a leading expert in the application of remote sensing and geospatial technology.



*Tîm CHERISH y Rhaglen Ddarganfod, o'r chwith i'r dde: Dr Edward Pollard (Archaeolegydd Ymchwil), Anthony Corns (Rheolwr Technoleg), Rob Shaw (Uwch Geo-Syrfëwr), Sandra Henry (Archaeolegydd Ymchwil Arweiniol) a Gary Devlin (Geo-Syrfëwr). / The Discovery Programme CHERISH team, from left to right: Dr Edward Pollard (Research Archaeologist), Anthony Corns (Technology Manager), Rob Shaw (Senior Geo-surveyor), Sandra Henry (Lead Research Archaeologist) and Gary Devlin (Geo-Surveyor).*

**CADWCH MEWN CYSYLLTIAD / KEEP IN TOUCH:**

[www.cherishproject.eu](http://www.cherishproject.eu)

[cherish@cbhc.gov.uk](mailto:cherish@cbhc.gov.uk) / [cherish@rcahmw.gov.uk](mailto:cherish@rcahmw.gov.uk)



[www.cherishproject.eu](http://www.cherishproject.eu)



CHERISH Project



@CHERISHproj



Llandanwg, Gwynedd, Mai 2017. / Llandanwg, Gwynedd, May 2017





# CHERISH

*Newid Hinsawdd a Threftadaeth yr Arfordir  
Climate Change and Coastal Heritage  
Athrú Aeráide agus Oidhreacht Chultúrtha*

**CADWCH MEWN CYSYLLTIAD / KEEP IN TOUCH:**  
[www.cherishproject.eu](http://www.cherishproject.eu)  
[cherish@cbhc.gov.uk](mailto:cherish@cbhc.gov.uk) / [cherish@rcahmw.gov.uk](mailto:cherish@rcahmw.gov.uk)



[www.cherishproject.eu](http://www.cherishproject.eu)



CHERISH Project



@CHERISHproj



Comisiwn Brenhinol  
Henebion Cymru  
Royal Commission on the Ancient  
and Historical Monuments of Wales



**Geological Survey**  
Suirbhéireacht Gheolaíochta  
Ireland | Éireann



Supported by

An Chomhairle Oidhreachta  
The Heritage Council

